# Canlyniadau ac Ar ôl y Canlyniadau – gwybodaeth i ganolfannau

## Canlyniadau Mehefin 2023

Mae dyddiadau rhyddhau'r canlyniadau i ganolfannau ac ymgeiswyr ar gyfer cyfres Mehefin 2023 i'w gweld isod:

| Cymhwyster | Rhyddhau'n gyfyngedig i ganolfannau | Diwrnod cyhoeddi'r canlyniadau |
|---|---|---|
| • Safon Uwch, UG<br>• Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol<br>• Tystysgrif Her Sgiliau – Bagloriaeth Cymru Uwch<br>• Project Estynedig<br>• Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio<br>• Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 00:01 o'r gloch Dydd Mercher 16 Awst 2023 | 08:00 o'r gloch Dydd Iau 17 Awst 2023 |
| • TGAU<br>• Lefel Mynediad<br>• Lefel 1 a 2 Dyfarniadau Galwedigaethol<br>• Lefel 1 a 2 Tystysgrifau (Lladin a Mathemateg Ychwanegol)<br>• Llwybrau – Ieithoedd Tramor Modern<br>• Bagloriaeth Cymru Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen Cyfnod Allweddol 4 | 00:01 o'r gloch Dydd Mercher 23 Awst 2023 | 08:00 o'r gloch Dydd Iau 24 Awst 2023 |

### Lle:
Bydd y canlyniadau ar gael fel ffeiliau EDI ac o'r gwymplen 'Canlyniadau' ar ein gwefan ddiogel www.wjecservices.co.uk. Bydd gwybodaeth am ganlyniadau yn cynnwys canllawiau ar sut i weld canlyniadau mewn fformatau gwahanol, canllawiau i'r canlyniadau, a ffiniau graddau (o ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau) ar gael ar dudalen gartref ein gwefan ddiogel dan y botwm 'Mwy o Wybodaeth'.

### Pryd:
Gall prif ddeiliaid cyfrifon weld y canlyniadau o 00:01am ar ddiwrnod rhyddhau'r canlyniadau'n gyfyngedig i ganolfannau (dydd Mercher), ac i ddeiliaid cyfrifon eilaidd o 08:00am ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau (dydd Iau).

### Pwy:
Swyddogion arholiadau yw prif ddeiliaid cyfrifon, fel arfer. Gwiriwch fod gennych chi fynediad at y wefan ddiogel cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r prif ddeiliad cyfrifon wedi newid neu'n debygol o newid.
Os byddwch yn cael unrhyw broblemau o ran cael mynediad dylech gysylltu â'n Desg Gymorth TG ar 029 2026 5163 neu anfon e-bost at securewebsite@wjec.co.uk i roi gwybod i ni.

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

### Manylion cyswllt:

Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi drwy e-bost gyda gwybodaeth bwysig yn ymwneud â chyhoeddi canlyniadau, neu i ofyn am wybodaeth a fydd yn gofyn am eich sylw. Gofynnir i chi sicrhau bod eich cyfeiriad e-bost cyswllt ar ein gwefan ddiogel yn gyfredol. Cliciwch y botwm 'Gweinyddu'r Cyfrif' ar y dudalen gartref ac yna 'Cyfrif Gweinyddwr' o'r rhestr i wirio'r manylion hyn.

Yr haf hwn, mae'r Gofrestr Rhifau Canolfan Cenedlaethol (CRhCC) hefyd yn casglu manylion cyswllt dynodedig uwch mewn argyfwng ar ran pob corff dyfarnu y CGC. Sicrhewch eich bod yn darparu'r wybodaeth hon i CRhCC, a'ch bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw os bydd hi'n newid. Anfonwch neges e-bost at ncn@ocr.org.uk os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymarfer hwn.

### Cynlluniau wrth gefn:

Cewch eich hatgoffa y dylai fod cynlluniau wrth gefn ar waith i gael mynediad at ddata canlyniadau. Dylai'r cynlluniau wrth gefn hynny ymdrin â'r sefyllfa bosibl lle nad yw'r prif ddeiliad cyfrifon ar gael, lle bydd eich canolfan yn colli cyflenwad trydan, neu lle mae eich canolfan yn destun ymosodiad seiber: Mae gwybodaeth am ymosodiadau seiber i'w gweld ar ein gwefannau Eduqas a CBAC.

## Fformatau canlyniadau

**Data sylfaenol:**

Cyn mewnforio unrhyw ffeiliau canlyniadau, sicrhewch fod y fersiwn diweddaraf o'n data sylfaenol wedi'i osod ar eich MIS. Gellir dod o hyd i ddata sylfaenol ar ein gwefannau Eduqas (i ganolfannau yn Lloegr) a CBAC (i bob canolfan arall).

**Ffeiliau EDI:**

Mae'r ffeiliau hyn yn cynnwys:

- Cymwysterau Llinol – graddau cyffredinol ar gyfer cymwysterau, ardystiadau (lle y bo hynny'n berthnasol) a chyfanswm y marc wedi'i agregu ar gyfer y cymhwyster (oni bai bod y cymhwyster wedi'i ardystio).
- Cymwysterau Unedol – graddau cyffredinol a marciau GMU ar gyfer cymwysterau ac unedau.

Mae ffeiliau EDI yn cael eu hanfon drwy'r ap 'A2C Transport' er mwyn eu mewnforio i becynnau MIS neu gellir eu llwytho i lawr o'n gwefan ddiogel (Canlyniadau > Llwytho'r Ffeil Ganlyniadau i Lawr).

**Ffeiliau XML:**

Yn unol â chyfathrebiadau'r CGC (New JCQ results files - marks now included! - JCQ Joint Council for Qualifications), bydd CBAC yn darparu ffeiliau canlyniadau XML ar gyfer cyfresi TGAU a TAG:

Mae'r ffeiliau hyn yn cynnwys:

- Cymwysterau Llinol – graddau cyffredinol ar gyfer cymwysterau, ardystiadau (lle y bo hynny'n berthnasol), cyfanswm y marc wedi'i agregu ar gyfer y cymhwyster a Marciau Cydrannau.
- Cymwysterau Unedol – graddau cyffredinol a marciau GMU ar gyfer cymwysterau ac unedau, yn ogystal â Marciau Cydrannau

Dim ond drwy'r ap 'A2C Transport' mae ffeiliau XML yn cael eu hanfon er mwyn eu mewnforio i becynnau MIS.

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

**A oes angen i ni fewnforio ffeiliau EDI ac XML?**
Bydd y ffordd o fewnforio'r ffeiliau yn dibynnu ar eich cyflenwr MIS. Cysylltwch â'ch cyflenwr MIS am fwy o fanylion.
Ar gyfer rhai MIS gall fod angen i chi fewnforio'r ffeiliau EDI a'r ffeiliau XML. Mae'r ffeiliau yn cynnwys yr un data canlyniadau, ond mae'r ffeiliau XML yn cynnwys data ychwanegol (marciau cydrannau). Os ydych chi'n ansicr pa ffeil y mae ei hangen arnoch neu os ydych chi'n cael anawsterau, argymhellwn eich bod yn mewnforio'r ffeil EDI, gan y bydd hyn yn sicrhau bod gennych chi'r holl ddata sy'n ofynnol ar gyfer ymgeiswyr ar ddiwrnod canlyniadau. Gellir mewnforio data ychwanegol sydd yn y ffeil XML yn ddiweddarach.

**Ap A2C Transport**
I'ch atgoffa, esboniodd y CGC ym mis Hydref 2021 eu bod nhw wedi diweddaru'r ap 'A2C Transport'. Mae manylion pellach i'w gweld yma: [Update the JCQ A2C Migration App from 4 October 2021 - JCQ Joint Council for Qualifications]

**Gwefan Ddiogel:**
Gellir llwytho gwybodaeth am ganlyniadau i lawr mewn fformatau gwahanol o'n gwefan ddiogel, gan gynnwys argraffu slipiau canlyniadau, marciau cydrannau, Data ar Lefel Eitem, Dadansoddi Eitemau Canolfannau. Bydd canllaw llawn ar gael o dudalen gartref y wefan ddiogel.

## Rhyddhau Canlyniadau

Rhaid trin canlyniadau yn unol â rheoliadau'r CGC – mae'r wybodaeth ar gyfer rhyddhau canlyniadau cyfres Mehefin 2023 ar gael ar wefan y CGC.
Mae ffeiliau canlyniadau a'u cynnwys yn gyfrinachol i bennaeth y ganolfan, staff y swyddfa arholiadau ac uwch aelodau'r staff addysgu yn y ganolfan, y consortiwm neu Ymddiriedolaeth Aml-Academi.

Ni ellir datgelu na thrafod y canlyniadau hyn na’r wybodaeth sy'n deillio ohonynt gyda'r canlynol:

- athrawon eraill;
- ymgeiswyr na rhieni;
- sefydliadau addysgol, Awdurdodau Lleol a Chonsortia Addysg Rhanbarthol yng Nghymru;
- y cyfryngau;
- unrhyw unigolion eraill.

Yn ogystal, ni ddylid datgelu na thrafod y canlyniadau hyn, na’r wybodaeth sy'n deillio ohonynt, ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook neu Twitter.
Os nad yw canolfan yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, rydym yn cadw'r hawl i beidio â chyhoeddi canlyniadau dan waharddiad mewn cyfresi yn y dyfodol.

Ni ddylid rhannu data canlyniadau'n ehangach tan y bydd yr ymgeiswyr wedi derbyn eu canlyniadau.

Ar ôl i ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau, ni ddylai canolfannau ryddhau data canlyniadau i Awdurdodau Lleol, na'u rhannu'n ehangach na hynny, tan ar ôl 09:30 ar y dyddiad priodol ar gyfer cyhoeddi canlyniadau. Yn yr un modd, ni ddylai canolfannau ryddhau datganiadau i’r wasg na siarad â'r wasg o gwbl tan ar ôl 09:30 ar y dyddiad priodol ar gyfer cyhoeddi canlyniadau. Bydd corff dyfarnu yn ystyried unrhyw achos o dorri'r gofynion hyn yn gamymddwyn.

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

## Adroddiadau Cymedrolwyr ac Arholwyr

Mae'r rhain ar gael o ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau (dydd Iau).

Bydd adroddiadau cymedrolwyr ar gael o'n System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS) ar ein gwefan ddiogel. Dyma'r un system a ddefnyddiwyd i fewnbynnu marciau asesiad mewnol eich myfyrwyr.
Ar gyfer Llwybrau Mynediad, mae adroddiadau cymedrolwyr i'w cael ar ein gwefan ddiogel dan 'Canlyniadau' > 'Llwytho i Lawr – argraffu canlyniadau'

Bydd arholiadau arholwyr ar gael ar dudalen pob pwnc ar ein gwefan agored. Dewiswch 'Dogfennau Allweddol' ac yna 'Adroddiadau arholwyr'.

## Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

Mae gwybodaeth am Wasanaethau ar ôl y Canlyniadau CBAC, gan gynnwys ffioedd a therfynau amser ar gael ar wefannau Eduqas a CBAC.

Rhaid i chi gael cydsyniad ysgrifenedig gan ymgeiswyr ar gyfer ail-wiriad clerigol ac adolygiad o'r marcio, oherwydd gallai marciau a graddau ymgeiswyr ostwng o ganlyniad. Ni ellir canslo cais o dan unrhyw amgylchiadau ar ôl cyhoeddi'r canlyniad, hyd yn oed pe bai'r ganolfan wedi gwneud cais mewn camgymeriad. Dylid gwneud cais am adolygiad o'r marcio ar ran ymgeiswyr os yw canolfan yn meddwl bod gwallau marcio wedi digwydd. Ewch i lyfryn Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau CGC i gael rhagor o wybodaeth.

### Mynediad at sgriptiau:

Byddwn yn darparu gwasanaeth mynediad at sgriptiau wedi'u marcio newydd rhad ac am ddim yr haf hwn.

Mae gwybodaeth i'w chael ar wefannau Eduqas a CBAC, a bydd mwy o wybodaeth am y system hon yn cael ei hychwanegu at y dudalen hysbysfwrdd i Swyddogion Arholiadau ar wefannau Eduqas a CBAC. Bydd canllaw manwl yn cael ei gyhoeddi hefyd ar ein gwefan ddiogel cyn diwrnod y canlyniadau.

Rhaid cael caniatâd gan yr ymgeisydd cyn cael mynediad at sgriptiau, fydd ar gael i'w llwytho i lawr am 6 mis.

## Apeliadau'n ymwneud â chanlyniadau Adolygiadau o'r Marcio a'r Cymedroli

Os bydd Pennaeth Canolfan neu ymgeisydd preifat yn ystyried bod gwall marcio wedi digwydd yn dilyn canlyniad y broses adolygiad o'r marcio/cymedroli, gellir cyflwyno cais am apêl yn unol â dogfen y CGC: 'Canllaw i brosesau apelio cyrff dyfarnu'.

Gweler dogfen CBAC, 'Apeliadau – Canllaw i Ganolfannau' sydd ar gael ar ein gwefan, am ragor o wybodaeth.

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

## Tystysgrifau

Bydd tystysgrifau ar gyfer haf 2023 yn cael eu cyhoeddi erbyn dechrau mis Tachwedd. Rhaid i chi ddosbarthu tystysgrifau i bob ymgeisydd yn ddi-oed a heb ystyried unrhyw anghydfod (fel peidio â thalu ffioedd). Ni ddylai tystysgrifau gael eu cadw'n ôl heb ganiatâd blaenorol gennym a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y bydd hynny'n digwydd. Dylid cadw cofnod o'r tystysgrifau sy'n cael eu dosbarthu.